OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 605

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Gorchymyn hwn,

ystyr "Deddf 1989" yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**).

### Diwygiadau i Ddeddf 1989

**2.**—(1) Mae'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1989 gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Lloegr) 2000 (**2**) fel y'u nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru hefyd.

(2) Mae cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn y diwygiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

27 Chwefror 2001

Rwy'n cydsynio i'r Gorchymyn hwn.

*Paul Murphy*
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

27 Chwefror 2001

(**1**) 1989 p.42.
(**2**) OS 2000/3056
(**3**) 1998 c. 38.